# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## VTCT Diploma mewn Effeithiau Arbennig Theatrig a Gwallt a Cholur Cyfryngau Lefel 3



**Yn gryno**

Mae hwn yn gwrs deinamig a manwl sy'n edrych ar y gwaith crefftus a wneir gan artistiaid colur effeithiau arbennig a'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch ar gyfer gyrfa yn y maes cyffrous hwn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych wrth eich bodd â phopeth yn ymwneud â thrin gwallt a harddwch

... Mae gennych ddiddordeb arbennig mewn colur ar gyfer y theatr, teledu a ffilm

... Rydych yn greadigol ac yn gweithio'n galed

... Rydych chi'n bwriadu dilyn gyrfa yn y diwydiant ac wedi cwblhau cwrs Colur Theatrig Lefel 2 neu'n meddu ar brofiad cyfatebol yn y diwydiant.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae artistiaid effeithiau colur arbennig yn gweithio gyda modelau byw neu berfformwyr i'w trawsnewid nhw'n gymeriadau neu greaduriaid (fel arfer at ddibenion sioe neu ddrama fel y disgrifir mewn sgriptiau ffilm a theledu). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi colur a/neu brostheteg ymlaen i gyflawni'r effaith theatrig ddymunol.

Byddwch yn ennill y sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddechrau gyrfa lwyddiannus mewn colur theatrig a'r cyfryngau a byddwch yn dysgu am weithio yn y diwydiant. Yn ystod eich amser yn y coleg, bydd cyfleoedd i fynychu profiad gwaith a chymryd rhan mewn cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu:

Colur ar gyfer y llwyfan a ffilm
Colur ffantasi
Colur cymeriad
Prostheteg
Gwallt priodasol a ffantasi
Lleoliad gwaith (sesiynau ffotograff, ffilmiau byrion a theatr)
Colur chwistrell baent a chelf corff
Ffasiwn uchel
Peintio wyneb a chorff
Heneiddio ar gyfer y llwyfan a ffilm
Capiau moel
Barfau gwallt a mwstashis crêp
Colur cyfnod
Effeithiau damwain
Cuddliw a gwrthdroad rhyw
Priodasol Asiaidd

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng asesiadau ymarferol ac ar-lein, aseiniadau a phortffolio o waith. Ar ôl cwblhau, byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 Colur Theatrig
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg (os nad ydych wedi ennill gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd angen o leiaf 5 TGAU gradd C neu'n uwch arnoch, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, a rhaid i chi fod wedi cwblhau Diploma Lefel 2 mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau/Colur Theatrig.

Mae mynediad uniongyrchol at y rhaglen hon yn bosib os oes gennych brofiad blaenorol yn y diwydiant colur.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn gallu cael cyflogaeth yn y diwydiant colur drwy waith teledu, theatr neu lawrydd, neu gallwch fynd ymlaen i astudio cwrs addysg uwch megis ein cwrs HNC/HND mewn Colur Arbenigol ar Gampws Crosskeys.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod gwisg:

Gwisg arbennig
Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb
Dim tyllau corff
Ni chaniateir gwisgo unrhyw emwaith ac eithrio modrwy briodas yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy, cost i'w gardarnhau.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.